Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# YMA I HELPU
## GYDA CHOSTAU BYW

**Gall Llywodraeth Cymru ac Advicelink Cymru eich helpu i hawlio eich arian.**

**llyw.cymru/ymaihelpu**

**Ffoniwch llinell gymorth Advicelink Cymru am ddim:**

# 0808 250 5700



cyngor ar bopeth

citizens advice

Mae angen ychydig o gymorth a chefnogaeth ar bob un ohonom o bryd i'w gilydd, a gyda chostau byw yn cynyddu mae angen cymorth ar lawer o bobl yng Nghymru nawr.

Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud popeth o fewn ei gallu i roi arian yn ôl ym mhocedi pobl.

Yn ogystal â helpu gyda biliau, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig ystod o gymorth ar bethau fel costau ysgol a gofal plant a chostau addysg bellach ac uwch. Gallai cyllid o'r Gronfa Cymorth Dewisol hefyd fod ar gael i helpu pobl mewn argyfwng sy'n dioddef caledi eithafol.

## Llinell Gymorth 'Hawlia Dy Arian' Advicelink Cymru

Os nad ydych yn siŵr pa gymorth sydd ar gael, mae Advicelink Cymru yma i'ch helpu i wirio a hawlio eich arian.

Ffoniwch y llinell gymorth 'Hawlia Dy Arian' am gyngor cyfrinachol am ddim ar eich hawl i arian ychwanegol o:

- Fudd-daliadau llesiant, fel Taliad Annibyniaeth Bersonol, Lwfans Gofalwyr a Chredyd Pensiwn.
- Cymorth Llywodraeth Cymru.

Gall cynghorydd drefnu hefyd i chi gael cymorth â materion dyled a chyllid personol.

## Beth sy'n digwydd pan fyddaf i'n ffonio'r llinell gymorth?

Pan fyddwch yn cysylltu ag Advicelink Cymru, bydd ymgynghorydd hyfforddedig yn siarad â chi am eich amgylchiadau ac yn eich helpu i ddarganfod pa gymorth sydd ar gael.

Bydd yr ymgynghorydd yn eich cefnogi drwy gydol y broses hawlio ac yn eich helpu i lenwi unrhyw ffurflenni hawlio.

Gallan nhw hefyd gynghori ar ba dystiolaeth y mae angen i chi ei rhoi i gefnogi'ch cais.

---

Cysylltwch ag ymgynghorydd heddiw drwy ffonio'r llinell gymorth am ddim

**0808 250 5700**

o ddydd Llun i ddydd Gwener 9am i 5pm

neu ewch i:
**llyw.cymru/ymaihelpu**

**YMA I HELPU**
**GYDA CHOSTAU BYW**

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru, WG44210